CANOLFAN BRIFYSGOL
CAMBRIA
UNIVERSITY CENTRE

SIARTER MYFYRWYR ADDYSG UWCH

COLEG CAMBRIA

WWW.CAMBRIA.AC.UK



MAE COLEG CAMBRIA YN HYNOD O LWYDDIANNUS GYDAG ENW DA YN GENEDLAETHOL AM RAGORIAETH.

Mae gennym hanes hir a llwyddiannus o ddarparu rhaglenni lefel uwch i ddiwallu anghenion diwydiant lleol a rhanbarthol. Trwy gydweithio â'n partneriaid prifysgol a'n cyflogwyr rhanbarthol, ein nod yw darparu rhaglenni gradd perthnasol, o ansawdd uchel i gynorthwyo gyda ffyniant economaidd, gwella cyfleoedd cyflogaeth a helpu unigolion i wireddu eu dyheadau gyrfa.

Mae partneriaeth gadarn rhwng y coleg a'i fyfyrwyr yn allweddol i sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau a'n dyheadau addysg uwch ar y cyd. Rydym yn credu'n gryf, pan fydd gan fyfyrwyr lais uniongyrchol mewn llunio eu profiad dysgu eu hunain, eu bod yn cael effaith arwyddocaol ac effeithiol ar eu llwyddiant eu hunain a llwyddiant pobl eraill. Mae'r siarter hon yn amlinellu ymrwymiad y staff a'r myfyrwyr i'r bartneriaeth honno.

TRWY GYDOL EICH TAITH DDYSGU

Bydd Coleg Cambria yn:

- Trin myfyrwyr a chydweithwyr yn gyfartal a'u parchu.
- Darparu safonau uchel o addysgu, cymorth, cyngor ac arweiniad.
- Cynnal safonau uchel o addysg a gofal myfyrwyr trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus rheolaidd ar gyfer ei staff a thrwy sicrhau a gwella ansawdd yn drylwyr.
- Trin pawb yn gyfartal, waeth beth fo'u hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, hil, cred grefyddol neu fod yn ddi-gred, eu rhyw a'u tueddfryd rhywiol.
- Darparu amgylchedd sy'n ddiogel, yn ffafriol i ddysgu ac yn rhydd rhag aflonyddu a gwahaniaethu.
- Diogelu'r holl wybodaeth bersonol rydych yn ei darparu, a'n bod yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.
- Darparu mynediad i wasanaethau cyfrwng Cymraeg fel y nodir yn ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Gofynnwn i chi wneud y canlynol:

- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad Coleg Cambria.
- Trin staff a chyd-fyfyrwyr yn gyfartal a'u parchu.
- Rhoi gwybod i'r coleg cyn gynted ag y gallwch am unrhyw anabledd sydd gennych i'n galluogi i weithio gyda chi i ddarparu'r cymorth angenrheidiol.
- Bod yn gyfrifol yn bersonol am eich diogelwch a'ch lles chi eich hun ac eraill.
- Cydymffurfio â thelerau holl reoliadau'r coleg a'r brifysgol a gofynion pob cod ymarfer y coleg neu ddogfennau tebyg sydd i'w cael ar wefan y coleg.
- Sicrhau eich bod yn rhoi gwybod i'r coleg am unrhyw euogfarnau troseddol sydd gennych chi neu y gallech eu derbyn.
- Sicrhau eich bod yn dweud wrth y coleg am unrhyw newid i'ch manylion personol neu fanylion eich cyflogwr, os ydych chi'n cael eich noddi.
- Parchu amgylchedd ffisegol y sefydliad.

Byddwn yn sicrhau eich bod yn gallu cwblhau'r cwrs rydych chi'n ei ddechrau*. Pe bai'r cwrs yn dirwyn i ben neu'n cael ei newid yn sylweddol, byddwn yn gweithio gyda'n sefydliad dyfarnu a phartneriaid eraill i sicrhau eich bod yn gallu cwblhau'r rhaglen.

*Pe byddech chi'n penderfynu cymryd seibiant o'r rhaglen, efallai na fyddwn yn gallu gwarantu i chi barhau â'r rhaglen pe bai yn dod i ben yn eich absenoldeb.

GWYBODAETH, ARWEINIAD A DERBYNIADAU

Bydd Coleg Cambria yn:

- Darparu gwybodaeth gywir am bob agwedd o'r rhaglen, gan gynnwys meini prawf mynediad.
- Rhoi costau cwrs cywir, dewisiadau talu, ac amcangyfrif o'r costau ychwanegol angenrheidiol i chi.
- Egluro'r broses ar gyfer gwneud cais a chael mynediad i'r coleg.
- Nodi a thrafod gyda chi'r man mwyaf priodol ar gyfer dechrau eich taith ddysgu.
- Rhoi gwybodaeth i chi am ffynonellau arian ar gyfer hyfforddiant, cynhaliaeth ac anghenion cymorth ychwanegol.

Gofynnwn i chi wneud y canlynol:

- Gwneud pob ymdrech resymol i gael y wybodaeth gywir sydd ei hangen arnoch i'ch galluogi i wneud penderfyniad gwybodus.
- Trefnu cymorth ariannol, llety ac unrhyw gymorth arall sydd ei angen arnoch, cyn gynted â phosib.
- Gwneud trefniadau ar gyfer talu'ch ffioedd yn brydlon, naill ai gennych chi neu gan drydydd parti (er enghraifft, Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr neu noddwr).

Gweler dolen at Delerau ac Amodau eich cwrs yma:
https://www.cambria.ac.uk/higher-education/terms-and-conditions/?lang=cy

ADDYSGU, DYSGU AC ASESU

Bydd Coleg Cambria yn:

- Cynnal safonau uchel o addysgu, dysgu ac asesu, trwy ddatblygiad proffesiynol parhaus rheolaidd ar gyfer ei staff addysgu.
- Sicrhau eich bod yn cael defnyddio adnoddau llyfrgell, TG a dysgu arbenigol, safon uchel.
- Rhoi copi electronig o lawlyfr eich rhaglen i chi, sy'n nodi amserlenni asesu, meini prawf asesu, oriau cyswllt, dulliau cyflwyno'r cwrs, trefniadau a rheoliadau arholiadau, canllawiau academaidd a chymorth, gweithdrefnau apelio a chwynion.
- Rhoi adborth yn brydlon ac yn ddigon manwl i'ch galluogi i ddatblygu'n barhaus.

Gofynnwn i chi wneud y canlynol:

- Bod yn gyfrifol am reoli'ch dysgu eich hun: cymryd rhan weithredol yn eich rhaglen; sicrhau eich bod yn treulio digon o amser yn astudio'n breifat yn rheolaidd, a'ch bod yn cymryd rhan lawn mewn gweithgareddau dysgu grŵp.
- Sicrhau bod yr holl waith a gyflwynir gennych chi yn waith chi eich hun a'ch bod yn cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth, yn unol â'r Polisi Llên-ladrad.
- Darllen y wybodaeth rydym yn ei darparu, edrych ar negeseuon e-bost a hysbysfyrddau perthnasol ar-lein a gofyn am eglurhad o unrhyw beth nad ydych chi'n ei ddeall.
- Cyflwyno gwaith i'w asesu erbyn y dyddiadau cau a nodwyd a bod yn bresennol ym mhob arholiad ac asesiad ymarferol, fel y nodir yn yr amserlen asesu.

CYMORTH A DATBLYGIAD I FYFYRWYR

Bydd Coleg Cambria yn:

- Cefnogi cyfranogiad myfyrwyr mewn datblygiad academaidd a rheolaeth cwrs, gan gynnwys ethol cynrychiolwyr
- Sicrhau bod gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr ar gael, gan gynnwys cwnsela a chyngor ar iechyd a lles; llety; gofal plant; cyllid a gyrfaoedd.
- Eich cynnwys mewn gweithgareddau gwella, gan gynnwys gwerthuso modiwlau, fforymau llais y myfyrwyr ac arolygon, a rhoi adborth i chi am ganlyniadau'r gweithgareddau hynny, ynghyd â gwybodaeth am ymateb y coleg.
- Rhoi gwybodaeth reolaidd i chi ar eich cynnydd unigol a sut y gallwch wella'ch perfformiad.
- Rhoi cymorth bugeiliol ac arweiniad academaidd i chi.
- Gweithredu'n brydlon i geisio datrys unrhyw broblemau neu bryderon sydd gennych chi.
- Trefnu eich bod yn cael gweithgareddau a fydd yn gwella eich cyflogadwyedd a'ch datblygiad personol.

Gofynnwn i chi wneud y canlynol:

- Cynorthwyo cynrychiolwyr cyrsiau a chymryd rhan mewn systemau a fydd yn arwain at wella ansawdd y dysgu a'r addysgu.
- Sôn am unrhyw broblemau neu gwynion allai fod gennych chi, drwy siarad â'r unigolyn neu'r unigolion dan sylw i ddechrau ac yna, os oes angen, trafod hynny ag arweinydd y rhaglen.
- Gofyn am gyngor ar unwaith os bydd eich cynnydd academaidd yn achosi pryder neu os ydych chi efallai'n ystyried newid eich rhaglen, rhoi'r gorau i'ch astudiaethau dros dro neu adael y Coleg.

Cymeradwywyd gan y Grŵp Llywio Mynediad ac Addysg Uwch - 26/09/22

Mae Siarteri Myfyrwyr a gwybodaeth am bartneriaid Prifysgolion i'w gweld yma:

Prifysgol Aberystwyth
https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/governance/studentsunion/student-charter-17.pdf

Prifysgol Bangor
https://www.bangor.ac.uk/studentcharter/index.php.cy

Prifysgol John Moores Lerpwl
https://www.ljmu.ac.uk/about-us/public-information/student-regulations/principles-of-partnership

Prifysgol Abertawe
https://myuni.swansea.ac.uk/student-voice/student-charter/

Prifysgol Caer
https://www.chester.ac.uk/campus-life/support-for-students/section

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
https://www.wrexhamglyndwrsu.org.uk/main-menu/student-voice/student-charter

Os hoffech roi adborth i ni neu os ydych yn dymuno gwneud cwyn, gweler ein Polisi Adborth a Chwynion yma: **https://www.cambria.ac.uk/feedback-complaints/?lang=cy**